**Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2016**

**Telyneg: Gobaith**

Daeth 13 telyneg i law.

Daw **Marged Ann, Gwynfor** **a Sali Mali** a gobaith y Gwanwyn inni ar ôl y Gaeaf hir. Mae'r rhain yn delynegion da ac yn llwyddo i ddod a darlun cywir o obaith y Gwanwyn

"Blodau mân yn wylaidd wenant

Ar y fron yn lluoedd tlws,

Fel confetti yn gawodydd

Fydd y ddraenen ger y drws." (Gwynfor)

**Tomos**

Mae Tomos wedi mynd a ni gyda gobaith y Cymry am fywyd newydd ym Mhatagonia.

**Briallu'r Cwm**

Un bennill gafwyd yn y delyneg yma, a dyna yn wir yw ei gwendid.

**Ffidil yn y to**

Telyneg ysgafn yn y wers rydd sydd yma, yn mynd a ni i'r gobaith o gael cysylltiad gwell na phwyso botymau 1, 2, 3 wrth ffonio'r cyngor sir.

**Shoni**

Telyneg drist yn mynd a ni at wely angau â'r gobaith o'r yfory di-boen

**Enlli**

Telyneg pedair pennill. Roeddwn yn hoff iawn o'r bennill olaf

"Mor hawdd ydyw ildio a cholli ffydd,

heb weld yr yfory sydd tu hwnt i'r dydd:

a phan fydd y nos amdanat yn cau,

cofia'r Un Seren sydd yno'n parhau."

Dwy delyneg ramantus yw rhai **Illtud** a **Thrwy gicio a brathu mae cariad yn magu.**

Dyma ddwy delyneg a ddaeth a gwên i'm wyneb.

**Iolo**

Mae Iolo wedi mynd â ni ar daith hunllefus y ffoaduriaid sy'n ceisio cael gwell byd.

**Mab Jimi**

Telyneg am Osian fel ffoadur sy'n chwilio am y gobaith tu hwnt i ddyheu am lais Nia Ben Aur.

**Rhisiart Roberts**

Telyneg am obaith yr hedyn yw hon a phan yw "yng nghledr eich llaw" mae'n "frau ac yn fregus", ac yna sut pan yw "yng nghledr y pridd" mae'n "wyrth ac yn werthfawr". Telyneg fer ond yn dweud llawer oedd hon.

Cefais fwynhad o ddarllen pob un ohonynt ond yr un a apeliodd fwyaf i mi, ar ôl pwyso a mesur, yw telyneg Rhisiart Roberts.

Felly yr enillydd yw **RHISIART ROBERTS.**

**Esyllt Tudur Adair**